# CYNGOR TREF PORTHMADOG

DRAFT

**Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mehefin 9fed 2026**

**COFNODION**

1. **Presennol:**
   Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Llywelyn Rhys (Is-gadeirydd), Cyng. Glenda Murray, Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Dr. Melfyn Edwards, Cyng. Carol Hayes, Cyng. Ben Humphreys, Cyng. Sarah Williams, Cyng. Aled Griffith, Cyng. Karena Owens.
   Elfyn Lewis (Clerc).

2. **Ymddiheuriadau.**
   Cyng. Michael Roberts.

   **Absennol:**
   Cyng. Edward Naish.

3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion:-**

   **Cyfarfod Llawn Mai 2026**

   Derbynwyd yn gywir. Cynnig. Cyng. Aled Grifith. Eilio. Cyng. Carol Hayes.

   **Cyfarfod Blynyddol.**

   Derbynwyd yn gywir. Cynnig. Cyng. Aled Grifith. Eilio. Cyng. Carol Hayes.

4. **Adroddiad y Cadeirydd.**

   Croesawyd Ben Humphreys i'w gyfarfod cyntaf fel cynghorydd Ward Tremadog ar Gyngor Tref Porthmadog.

   Roedd yr ardal wedi bod yn brysur tu hwnt yn ystod y tywydd braf a'r gwyliau ysgol yn ddiweddar. Roedd trafferthion traffig yn Morfa Bychan gyda pobl yn ciwio am dros awr i fynd ar y traeth. Nid y system newydd o dalu i fynd ar y traeth oedd yn creu'r broblem i gyd gan fod ciwiau hefyd i fynd i safle carafannau Greenacres.

   Cafwyd trychineb ar y traeth pan bu farw ymwelydd ar ol i'w gerbyd cael ei ddal yn y tywod meddal gyda'r llanw yn dod i mewn. Cydymdeimlwyd a'r teulu.

   Roedd hi'n dda gweld bod Tim Tacluso Cyngor Gwynedd wedi bod yn glanhau y strydoedd cefn ym Mhorthmadog yn ddiweddar.

5. **Adroddiad y Clerc.**

1. **Diweddariad Meddygfa Newydd Porthmadog.**

Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod gyda cynrhychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a swyddogion Cyngor Gwynedd ar Fehefin 5ed er mwyn cael diweddariad ar y cynllun i gael ganolfan iechyd newydd i Borthmadog. Roedd tri safle o dan ystyriaeth sef safle yr hen Coliseum, safle Cae Model Dairy a Ganolfan Hamdden Glaslyn. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ffafrio safle Ganolfan Hamdden Glaslyn.

Roedd taflen wedi ei gynhyrchu gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn amlinellu y manteision a'r anfanteision gyda'r tri safle.
Roedd cynghorwyr Cyngor Tref Porthmadog yn ffafrio safle yr hen Coliseum.
Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu gyda swyddogion o Betsi Cadwaladr er mwyn eu gwahodd i gyfarfod o'r Cyngor Tre i drafod y mater.

2. **Bryn Coffa.**
   Roedd Barry Edwards o'r Lleng Brydeinig am i'r Cyngor Tre ystyried i docio chydig ar y coed wrth y grisiau ar Bryn Coffa er mwyn i bobl allu gweld y groes yn well yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio.
   **Penderfyniad: Y Clerc i ofyn am fwy o wybodaeth ar pa goed oeddynt yn eu trafod cyn cyfarfod yr is-bwyllgor Eiddo yn Mis Gorffennaf.**
3. **Cae Pawb.**
   Roedd pwyllgor Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb wedi cyfarfod yn ddiweddar a roedd Y Clerc am rannu y cofnodion gyda'r cynghorwyr.
   Cytunwyd i ariannu sgip i'r garddwyr er mwyn cael gwared o'r gwastraff ar y safle.

**Diweddariad Dathliadau Eifion Wyn:**

Roedd ffurflen gais am grant o Gronfa Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned wedi ei baratoi ac am ei gyflwyno cyn y dyddiad cau ar Fehefin 15fed. Bwriedir i'r grant ariannu bwrdd gwybodaeth yn olrhain hanas a bywyd Eifion Wyn i'w leoli yn Y Parc ym Mhorthmadog.

I'w drafod o dan gohebiaeth.

**6. Datgan diddordeb.**

Ben Humphreys. Gohebiaeth. Llythyr Cais cyfethol Dion Humphreys. Rheswm – Perthynas i Dion. Gadawodd y Cyng. Ben Humphreys yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

**7. Ceisiadau Cynllunio:**

YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO: Rhif Cais: C26/0313/44/DT - ERYLDON, 1 Rhes Amanda,

Borth- y-Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TT.

Bwriad: Dymchwel modurdy ddwbl a storfa bresennol ynghyd â chodi modurdy newydd gyda llawr gyda defnydd ategol uwchben.

**Penderfyniad:**

Gwrthwynebwyd y cais cynllunio.

DRAFT

**8. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF:**

Dim i'w adrodd.

**9. <u>MATERION I'W DWYN GERBRON:</u>**

**Cyng. Alwyn Gruffydd:**
Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i holi pam nad yw arwydd stryd Heol Dulyn yn Nhremadog wedi ei ail-osod fel yr oedd Cyngor Gwynedd wedi ei addo.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Dr Melfyn Edwards yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd (ac i gopio y Prif Weithredwr ar yr ebost) i holi paham nad yw'r arwydd wedi ei ail-osod gan fod Cyngor Gwynedd wedi rhoi addewid i wneud y gwaith.

**Cyng. Llywelyn Rhys:**
Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i nodi bod cyflwr llwybr cyhoeddus Lon Haearn Bach rhwng Ganolfan Hamdden Glaslyn a Ffordd Penamser mewn cyflwr gwael ac yn anodd i'r cyhoedd i'w gerdded.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Glenda Murray yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i dynnu sylw at gyflwr truenus y llwybr gyda ffens a choed peryglus wrth y llwybr.

**Cyng. Llywelyn Rhys:**
Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i holi pam nad yw bysus T2 yn stopio wrth y mannau aros priodol ar Ffordd Penamser.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Glenda Murray yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda Trafnidiaeth Cymru a swyddogion Cyngor Gwynedd.

**Cynghorydd Carol A. Hayes:**
1. Yn unol â dymuniad Ceinwen Roberts, 66 Pensyflog, Porthmadog cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn dilyn esiampl Cyngor Tref Dolgellau ac atgyfodi Carnifal Blynyddol y dref, cynigiaf ein bod yn y lle cyntaf yn cysylltu gyda Cyngor Tref Dolgellau i ofyn am fanylion eu rhan yn Carnifal Dolgellau 2026.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Llywelyn Rhys yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda Clerc Cyngor Tref Dolgellau.

2. Cynnig bod Y Cyngor Tre yn cysylltu ar frys gyda Adra a Grŵp Cynefin i ofyn iddynt ystyried prynu Capel Seion, Porthmadog er budd trigolion y dref.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Llywelyn Rhys yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Adra a Grwp Cynefin i drafod y mater.

**Cynghorydd Aled Griffith:**

1. Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i holi pam nad oes bosib creu system gwell o dalu i barcio ar Glan y Mor Craigddu.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Karena Owens yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod y mater.

2. Cynnig bod y Cyngor Tre yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i holi pam nad yw buniau ar y Stryd Fawr yn cael eu gwagio yn fwy aml yn ystod gwyliau banc / ysgol. Cerdded i lawr Stryd Fawr Porthmadog fore Mawrth ar ol Gwyl y Banc am 9.00y.b. a phob bin yn llawn a sbwriel ar llawr o’u amgylch o'r Harbwr i Siop Fawr.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Jeremy Davies yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod y mater.

3. Cynnig bod y Cyngor Tre yn gyrru llythyr i Cynghorwyr Cyngor Gwynedd - Ward Glaslyn a Porthmadog Dwyrain - i holi os oes bosib ymweld a Cyngor Tref Porthmadog pob 3 mis i roi adroddiadau ar pynciau sydd yn codi yn y Cyngor a all fod o ddiddordeb i'r ddwy ward.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Jeremy Davies yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda’r Cynghorwyr Sir er mwyn eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Tre yn rheolaidd.

4. Cynnig bod Y Cyngor Tre yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i gael eglurhad paham roedd toiledau ym Mhorthmadog wedi cau ar Ddydd Sadwrn Mai 30 ac iddynt gadarnhau neu beidio os oedd hyn oherwydd bod y glanhawr ar wyliau.
**Penderfyniad:**
Derbynwyd y cynnig. Y Cyng. Alwyn Gruffydd yn eilio.
Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.

**10. Materion i’w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i’w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Gorffennaf 14eg 2026 = Gorffennaf 4ydd 2026. (Rheolau Sefydlog 9 (b) “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”).*

**11. Gohebiaeth - Rhestr Aros am Ateb:**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sophie Roberts (Heddlu Gogledd Cymru) | Cais am ddiweddariad ar troseddau yn Cae Pawb. (Gyrrwyd ar Fai 19, 2026)<br>**Penderfyniad:** Y Clerc i gysylltu unwaith eto gyda’r heddlu i ofyn am adroddiad o’r troseddau. |
| **2** | Arwel Jones – Breese Gwyndaf | Trosglwyddo perchnogaeth Cae Pawb. (Gyrrwyd ar Fehefin 2il, 2026)<br>**Penderfyniad:** Roedd Y Clerc eisoes wedi cael gair gyda Arwel Jones a mi roedd Breese Gwyndaf wrthi yn paratoi y gwaith papur angenrheidiol. |
| | | |

**12. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Dion Humphreys | Cais cyfethol.<br><br>**Penderfyniad:** Cyfetholwyd Dion Humphreys i sedd ar Ward Dwyreiniol Cyngor Tref Porthmadog.<br><br>Gadawodd Y Cyng. Ben Humphreys yr ystafell yn ystod y drafodaeth. Rheswm – perthynas i Dion Humphreys. |
| 2 | Gethin Vaughan Jones (Uwch Syrfewr Cyngor Gwynedd) | Trosglwyddo Cae Pawb.<br>**Mae'r broses o drosglwyddo perchnogaeth Cae Pawb yn parhau a bydd y dogfennau perthnasol wedi eu trosglwyddo yn fuan.** |
| 3 | Tim Tacluso | Diweddariad ar lanhau strydoedd Porthmadog.<br>**Derbyn y wybodaeth. Roedd Tim Tacluso Cyngor Gwynedd wedi dechrau ar y gwaith o ddifa y chwyn.** |
| 4 | Awel y Mor | Cylchlythyr.<br>**Derbyn y wybodaeth**. |
| 5 | Tesco | Manylion grant.<br>**Derbyn y wybodaeth.** |
| 6 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Trefnu rhoi sgwrs i'r Cyngor Tre.<br>**Derbyn y wybodaeth. Y Clerc i gadw cysylltiad gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn trefnu i un o'r swyddogion roi cyflwyniad ar berygl llifogydd ym Mhorthmadog yn y dyfodol.** |
| 7 | Selena Caamano | Meinciau wrth yr harbwr.<br>**Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda'r Harbwrfeistr i gadarnhau pwy sydd yn gyfrifol am y mainc.** |
| 8 | Wi-fi cymunedol. | Diweddariad.<br>**Derbyn y wybodaeth. Nid oedd bwriad gan Y Cyngor Tre i gymeryd drosodd y cyfrifoldeb am y wi-fi cymunedol**. |
| 9 | Bryn Pritchard Jones | Sauna Morfa Bychan.<br>**Penderfyniad: Gwrthwynebu y cais.** |
| 10 | Un Llais Cymru | Pecynnau bioamrywiaeth.<br>**Derbyn y wybodaeth. Ystyried pecynna blodau gwyllt.** |
| 11 | Williams a Williams | Dyfynbris Sgip Cae Pawb.<br>**Derbyn y dyfynbris. Y Clerc i archebu y sgip.** |
| 12 | Awyrlu Frenhinol | Sul y Cofio.<br>**Derbyn y wybodaeth. Y Clerc i ofyn os oes fersiwn** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cymraeg o'r ebost.** |
| 13 | Llywelyn Davies | Cais cyd-denant Cae Pawb.<br>**Derbyn cais Llywelyn Davies i roi enw ail denant ar y plot yn Cae Pawb.** |
| 14 | Karena Owens | Dyfynbris Bwrdd Gwybodaeth Eifion Wyn<br>**Derbyn y wybodaeth. Y Clerc i gyd-weithio gyda'r Cyng. Karena Owens ar y cais grant.** |
| 15 | martdesign | Dyfynbris Bwrdd Gwybodaeth Eifion Wyn 2<br>**Derbyn y wybodaeth. Y Clerc i gyd-weithio gyda'r Cyng. Karena Owens ar y cais grant.** |

**<u>13. MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| HMRC | Ad-daliad Treth ar Werth | £5422.92 |
| HSBC | Llog banc hyd at Mai 19 2026 | £37.81 |

**Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | ELFYN LEWIS | CYFLOG CLERC MAI 2026 | £1408.58 |
| 2 | ELFYN LEWIS | LLINELL WE A FFON Y CLERC MAI 2026 | £60-67 |
| 3 | HMRC | TRETH INCWM Y CLERC MAI 2026 | £352.14 |
| 6 | HMRC | TRETH INCWM GWILYM JONES<br>(LWFANS Y CADEIRYDD 2026-7) | £300 |
| 7 | GARDENCRAFT TREMADOG | BLODAU STRYD FAWR PORTHMADOG | £570 |

Cymeradwyd y taliadau. Cyng. Llywelyn Rhys yn cynnig. Cyng. Dr. Melfyn Edwards yn eilio.

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20.

Elfyn Lewis (Clerc)
Mehefin 16, 2026

DRAFT

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*

*Ffôn / Tel : 01766 514210*

*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

DRAFFT